






Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Y Grŵp Cyngor Technegol

## Crynodeb o'r Cyngor

23 Ebrill 2021



## Y Gell Cyngor Technegol: Crynodeb o'r Cyngor

23 Ebrill 2021

### Crynodeb o'r prif bwyntiau

- **Mae nifer yr achosion yn parhau i syrthio neu'n parhau'n sefydlog ar lefel isel ar draws rhan helaeth o Gymru**, gyda gostyngiad o 24% i 13.6 o achosion fesul 100k o'r boblogaeth ar lefel genedlaethol, gan ddod â Chymru o fewn trothwy'r nifer isaf o achosion. Yn dilyn brig y don gyntaf, gwelwyd y lefel hon ychydig cyn i Gymru gyrraedd y pwynt isaf yn ystod y pandemig o 3 achos fesul 100,000 o'r boblogaeth yn haf 2020.
- Mae'r amcangyfrifon o  $R_t$  a chyfraddau twf yn dod yn gynyddol ansicr wrth i gyfnodau yn yr ysbyty a marwolaethau gyrraedd lefelau isel, gyda chyfran uwch o achosion o ganlyniad i glystyrau o frigiadau o achosion. Ar hyn o bryd, gallai fod yn fwy defnyddiol edrych ar fesuriadau sy'n gysylltiedig â digwyddedd a chyffredinrwydd na  $R_t$ .
- Mae'r amcangyfrif diweddaraf o  $R_t$  ar gyfer Cymru gan **SAGE** ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben ar 6 Ebrill rhwng **0.7 a 1.0** (cyfwng hyder o 90%). Ar 21 Ebrill, mae'r  $R_t$  fel y'i hamcangyfrifir gan **lechydd Cyhoeddus Cymru** (PHW), sy'n fwy cyfredol ond sy'n defnyddio data achosion yn unig, yn **0.85** (cyfwng hyder o 95%: 0.8 i 0.9).
- Fel yr adroddwyd gan PHW, fel ag yr oedd y sefyllfa ar 23 Ebrill, mae dros **1.7 miliwn o ddosau cyntaf** o frechlyn COVID-19 a thros **0.6 miliwn o ail ddosau** wedi cael eu rhoi yng Nghymru. Golyga hyn fod ychydig dros 70% o'r boblogaeth gymwys yng Nghymru yn awr wedi derbyn o leiaf un dos o frechlyn COVID-19.
- Ar gyfer yr wythnos o 10 i 16 Ebrill 2021, mae'r [Arolwg Heintiadau COVID-19](#) yn amcangyfrif bod cyfraddau heintio COVID-19 yn y gymuned wedi sefydlu yng Nghymru yn tua **1 o bob 840** (cyfwng credadwy o 95%: 1 o bob 1,810 i 1 o bob 480).
- Fel ag yr oedd y sefyllfa ar 23 Ebrill, yr Amrywiolyn sy'n Peri Pryder "VOC-20DEC-01" (B.1.1.7, a nodwyd gyntaf yn y DU) yw'r amrywiolyn cryfaf yng Nghymru o hyd. Cafwyd **37 o achosion o VOC-20DEC-02 a gadarnhawyd ar sail genomeg a thebygol**, +2 ers yr adroddiad blaenorol (B.1.351, yr amrywiolyn sy'n gysylltiedig â De Affrica) a **10 achos o'r amrywiolyn VUI-21FEB-03** (B.1.525, sy'n gysylltiedig â Nigeria) (+0). Mae **1 achos o'r amrywiolyn VUI-21JAN-01** (P.1, a nodwyd gyntaf ym Mrasil drwy Japan) (+0) wedi cael ei nodi yng Nghymru.
- Mae'r amrywiolyn B.1.617.1, sydd wedi lledu drwy India a rhannau o Dde Asia, yn awr wedi cael ei ddynodi yn Amrywiolyn sy'n Destun Ymchwiliad (VUI) gan Public Health England. Fel ag yr oedd y sefyllfa ar 23 Ebrill, mae **8 achos a gadarnhawyd ar sail genomeg a thebygol o'r amrywiolyn hwn (VUI-21APR-01)** wedi'u nodi yng Nghymru.
- Mae cynnydd pellach wedi bod mewn data symudedd yn dilyn y newidiadau i'r canllawiau o 12 Ebrill, sy'n cynnwys dim cyfyngiadau ar deithio, ysgolion yn

dychwelyd yn dilyn y Pasg ac ailagor manwerthu nad yw'n hanfodol. Bu cynnydd sydyn mewn symudedd yn y rhan fwyaf o gategorïau yn ystod yr wythnos yn dilyn 12 Ebrill, er bod symudedd o ran y gweithle, manwerthu a hamdden a thrafnidiaeth gyhoeddus yn is na'r lefelau sylfaenol hyn.